

Ar yr 28ain o Chwefror ymwelodd Llais â Phractis Grŵp Pen-y-bont ar Ogwr i siarad â chleifion am eu barn a'u profiadau o'r feddygfa. Gofynnwyd i gleifion lenwi arolwg boddhad cleifion a chawsom 54 o ymatebion. Rydym wedi rhestru rhai canfyddiadau allweddol isod.



Mae staff y dderbynfa yn hynod gyfeillgar

Gwasanaethau yn ardderchog bob amser. Dydw i ddim yn mynd i mewn ar amser bob tro ond dim aros gormodol. Mae'r staff yn ofalgar ac yn broffesiynol.

Wrth gofrestru am y tro cyntaf, dywedwyd wrthyf fod cofrestr cardio ar gyfer problemau'r galon a byddwn yn cael fy ngalw am apwyntiadau gwirio blynyddol. Nid yw hyn erioed wedi digwydd. Roeddwn i'n arfer galw a threfnu fy apwyntiadau fy hun, nawr nid wyf yn trafferthu, mae'n rhy anodd.

Mae hwn yn bractis rhagorol ac rwy'n teimlo'n ffodus iawn i fod mewn meddygfa mor ofalgar a chymwynasgar. Mae'r system E-Consult ar-lein yn ardderchog ac rwyf bob amser yn cael apwyntiad i mi fy hun a fy mhlant. Mae pawb yn hynod gyfeillgar a chymwynasgar. Eithriadol.

Nid wyf yn meddwl bod nifer yr apwyntiadau sydd ar gael yn addas ar gyfer nifer y cleifion, felly naill ai mae angen i feddygon weithio'n llawn amser neu mae angen recriwtio mwy o feddygon teulu.

Mae parcio yn hunllef

Mae Practis Grŵp Pen-y-bont ar Ogwr yn dîm gwych o bobl sydd bob amser yn trin fy hun a fy ngŵr â charedigrwydd ac ystyriaeth a gofal. Fy niolch i bawb.

Mae'r E-consult yn ddefnyddiol ond gall fod yn anodd hefyd os ydych yn gweithio



Diolch i'r cleifion, staff a gwirfoddolwyr am ymgysylltu â ni a chefnogi'r ymweliad!

